# CYFARFOD BLYNYDDOL CRONFA BENSIWN GWYNEDD RHWNG AELODAU PWYLLGOR PENSIYNAU CYNGOR GWYNEDD A CHYNRYCHIOLWYR Y CYFLOGWYR A'R UNDEBAU DYDD IAU, 14 MEDI 2017

**Yn bresennol:**

**Aelodau'r Pwyllgor Pensiynau**

Y Cynghorwyr Stephen Churchman, John Brynmor Hughes, Aled Wyn Jones, John Griffith (Cynrychiolydd Cyngor Môn), David Cowans (Cynrychiolydd Cyngor Bwrdeistrefol Conwy)

**Aelodau'r Bwrdd Pensiwn**

Tony Deakin (Cartrefi Conwy), Cynghorydd Aled Lloyd Evans (Cyngor Gwynedd), Sharon Warnes, Huw Trainor (Heddlu Gogledd Cymru),Osian Richards (Cyngor Gwynedd) a H Eifion Jones

**Cynrychiolwyr Cyflogwyr**

Alison Evans (Grŵp Llandrillo Menai), Marc Jones (Cyngor Sir Ynys Môn), Lynn Patterson (Cwmni Cynnal), Tony Walter (Cyngor Conwy), Geraint Owen (Menter Môn), Nickie Lawrence (Gyrfa Cymru)
Geraint Owen (Cyngor Gwynedd),

**Staff sy'n Gwasanaethu'r Gronfa (Cyngor Gwynedd);**

Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi), Nicholas Hopkins (Rheolwr Pensiynau), Meirion Jones (Swyddog Cyfathrebu (Pensiynau), Ffion Madog Evans (Rheolwr Cyllid - Adnoddau a Chorfforaethol), Richard Owen (Dirprwy Reolwr Pensiynau), Gwennan Williams Jones, Gruff Thomas (Swyddog Systemau Uned Bensiynau ) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**1. CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Stephen Churchman yn gadeirydd am y cyfarfod.**

**2. IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd John Brynmor Hughes yn is-gadeirydd am y cyfarfod.**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Y Cynghorydd Seimon Glyn (Cyngor Gwynedd), Cynghorydd John P Roberts (Cyngor Gwynedd), Arnold Milburn (Cyngor Tref Llangefni), Mandy Evans (Cyngor Tref

Abergele), Nia Jones (Cwmni Fran Wen) a Medrwn Môn

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol

## 5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL CRONFA BENSIWN GWYNEDD 2016-2017

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid Adroddiad Blynyddol y Cynllun Pensiwn am 2016/17.
Rhoddwyd sylw penodol i brif faterion yr adroddiad:

**Perfformiad Buddsoddi**

Adroddwyd cynnydd o £339m yng ngwerth asedau'r Gronfa o £1,525m (31/03/2016) i £1,864m (31/03/2017). Nodwyd bod y twf sylweddol yma o 22% yn adlewyrchu perfformiad cyffredinol gwych y farchnad stoc eleni a bod rheolwyr buddsoddi'r Gronfa wedi cyrraedd y lefel meincnod yn 2016/17. Cyfeiriwyd yn yr adroddiad at y datganiad o gyfrifon (sydd yn amodol ar gael eu harchwilio gan gwmni Deloittes). Cyfeiriwyd hefyd at y datganiadau asedau net oedd yn parhau'n galonogol, wrth ystyried bod hyn wedi ei adeiladu ar sefyllfa ariannu cymharol ffafriol y Gronfa yn ystod Prisiad 2016. Tynnwyd sylw at y buddsoddiadau gan amlygu perfformiad arbennig buddsoddiadau tramor a pherfformiad rhagorol gan Insight (rheolwr buddsoddi).

Adroddodd Adran Actiwari'r Llywodraeth yn ddiweddar i Fwrdd Cenedlaethol Cronfa Pensiwn Llywodraeth Lleol CPLlL (yr "SAB") ar lefel ariannu pob cronfa ar 31/03/2016. I ganfod cymhariaeth, defnyddiwyd rhagdybiaethau safonol 'tebyg-wrth-debyg' (yn hytrach na rhagdybiaethau strategol cyhoeddus y cronfeydd ei hunain). Adroddwyd, rhwng Prisiadau 2013 a 2016, bu i lefel ariannu safonol Cronfa Gwynedd gynyddu 7%, o 102% yn 2013 i 109% yn 2016. Roedd hyn yn rhoi Gwynedd yn y degfed uchaf o'r 89 cronfa CPLlL yn Lloegr a Chymru, a'r uchaf yng Nghymru ar 31/03/2016.

Tra defnyddiwyd rhagdybiaethau'r Gronfa ei hun ar gyfer cynlluniau ariannu ac ar gyfer penderfyniadau buddsoddi strategol, nodwyd bod y cymariaethau hyn yn cadarnhau cadernid strategaeth ariannu Cronfa Gwynedd, gyda thwf sylweddol mewn asedau buddsoddi yn 2016/17 yn adeiladu ar hyn.

**Partneriaeth Pensiynau Cymru**

Adroddodd y Cadeirydd bod cynnydd sylweddol wedi ei wneud dros y flwyddyn i ddatblygu Partneriaeth Pensiynau Cymru i reoli asedau buddsoddi'r wyth Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) yng Nghymru ar sail gydweithredol. Roedd y Bartneriaeth bellach mewn sefyllfa i sefydlu Cerbyd Buddsoddi Cyfunol erbyn 1 Ebrill 2018. Pwysleisiwyd na fyddai'r Bartneriaeth yn golygu cyfuno'r wyth gronfa; byddai pob cronfa yn cadw ei hunaniaeth unigryw gyda'r awdurdodau gweinyddol yn parhau yn gyfrifol am gydymffurfio a rheoliadau cynllun CPLlL a'r ddeddfwriaeth pensiwn o safbwynt eu haelodaeth. Bydd cyfrifon blynyddol a

phrisiadau actiwaraidd teirblynyddol yn parhau i gael eu paratoi ar gyfer pob cronfa bensiwn unigol a bydd pob cronfa yn penderfynu ar eu strategaeth ariannu eu hunain

Ategwyd, bod yr wyth Cyngor wedi cymeradwyo cytundeb rhyng-awdurdod (Gwanwyn 2017) gyda'r Bartneriaeth Pensiynau Cymru bellach wedi sefydlu Cydbwyllgor Llywodraethu, sydd yn cynnwys aelodau etholedig o bob awdurdod gweinyddol, sydd yn cael ei gefnogi gan Weithgor Swyddogion. Nodwyd mai'r Cynghorydd Stephen Churchman oedd Cadeirydd y Cydbwyllgor am eleni. Amlygwyd bod yr wyth gronfa bensiwn yng Nghymru wedi dechrau ar y broses Caffael Ewropeaidd ar gyfer Gweithredwr ar gyfer y Cerbyd Buddsoddiadau Cyfunol. Bydd yr ymatebion i'r Gwahoddiad i Dendro gan y Gweithredwyr yn cael eu hasesu a'u sgorio yn Awst/Medi 2017 gyda'r bwriad i'r Cydbwyllgor argymell apwyntio'r cynigydd gorau o ran cyrraedd gofynion y fanyleb.

**Bwrdd Pensiwn**

Cyfeiriwyd at adroddiad blynyddol Bwrdd Pensiwn y Gronfa oedd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad. Nodwyd bod y Bwrdd wedi cyfarfod yn rheolaidd ers Gorffennaf 2015 a diolchwyd i Mrs Sharon Warnes am gadeirio'n effeithiol a rhagweithiol yn ystod y ddwy flynedd gychwynnol wrth sefydlu'r Bwrdd yn ei rôl craffu

**Canlyniad y Prisiad**

Adroddwyd bod prisiad actiwaraidd teirblynyddol y Gronfa wedi ei gwblhau yn ystod 2016/17, ac er bod sefyllfa cyflogwyr unigol o fewn y Gronfa wedi gwahaniaethu, yn gyffredinol, roedd cryfder y Gronfa wedi galluogi cymryd dull hyblyg tuag at gyfraddau cyfraniadau. Roedd lleihau cynnydd mewn cyfraddau cyfraniadau yn flaenoriaeth, o ystyried y wasgfa barhaus ar wariant cyhoeddus Nodwyd, bod pob cyflogwr yn ymwybodol o'u cyfraddau cyfraniadau pensiwn, a'r prif amcan oedd sicrhau bod gan gyflogwyr strategaethau cyfrannu fforddiadwy, teg, a chynaliadwy ar gyfer 2017/18 - 2019/20, sydd yn adlewyrchu eu hamgylchiadau unigol eu hunain.

Er bod adnoddau staff y Gronfa wedi eu hailgyfeirio i'r Prisiad, parhaodd yr uned weinyddol i gyflawni perfformiad boddhaol. Nodwyd bod y wybodaeth sydd ar wefan y Gronfa wedi datblygu a bod cynnydd yn nifer yr aelodau sydd yn defnyddio'r gwasanaethau ar-lein.

Croesawyd aelodau newydd y Pwyllgor Pensiynau ac ymestynnwyd diolch i'r cyn-gynghorwyr Tudor Owen (Cyngor Gwynedd a chyn-gadeirydd), Glyn Thomas (Cyngor Gwynedd) a Margaret Lyon (cynrychiolydd Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy) am eu gwasanaeth. Diolchwyd hefyd i'r cyn-gynghorydd, y diweddar Trefor Edwards, a wasanaethodd am nifer o flynyddoedd fel aelod a chyn-gadeirydd y Pwyllgor Pensiynau. Cafwyd munud o dawelwch fel arwydd o barch.

Diolchwyd i bawb am eu cefnogaeth yn ystod 2016/17

**PENDERFYNWYD DERBYN ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GRONFA BENSIWN AM 2016/17**

Dechreuodd y cyfarfod am AmserAmhenodol a daeth i ben am AmserAmhenodol

**CADEIRYDD**